OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 1032 (Cy. 172)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48, yr A40 a'r A465 (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Medi 2023* |
| *Yn dod i rym* | *20 Medi 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A48, yr A40 a'r A465, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48, yr A40 a'r A465 (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Medi 2023.

### Dehongli

**2.**Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Medi 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

## ATODLEN 1
## CEFNFFORDD YR A48
## (CAS-GWENT)

Y darn o gefnffordd yr A48 yng Nghas-gwent, o'r enw Newport Road, sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Highbeech hyd at bwynt 30 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Sant Lawrence, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan honno.

Y darn o gefnffordd yr A48 yng Nghas-gwent, o'r enw Mount Pleasant Road, sy'n ymestyn o bwynt 85 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd rhwng yr A48 a Garden City Way hyd at bwynt 124 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Upper Church Street.

## ATODLEN 2
## CEFNFFORDD YR A40
## (Y FENNI)

Y darn o gefnffordd yr A40 yn y Fenni, o'r enw Ffordd Trefynwy, sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Heol yr Orsaf hyd at bwynt 115 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gobannium.

Y darn o gefnffordd yr A40 yn y Fenni, o'r enw Ffordd Aberhonddu, sy'n ymestyn o bwynt 140 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Red Barn Lane hyd at bwynt 85 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Knoll Gardens.

## ATODLEN 3
## CYFFORDD BRYN-MAWR YR A465

Y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd Bryn-mawr cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 6 metr i'r gorllewin o drwyniad gwyro ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A465 hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn o gefnffordd yr A465 wrth Gyffordd Bryn-mawr sy'n ymestyn o'r gyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Blackrock hyd at ddechrau trwyniad gwyro ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 wrth Gyffordd Bryn-mawr sy'n ymestyn o ddechrau trwyniad gwyro ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 hyd at bwynt 85 o fetrau i'r gogledd-orllewin o gefn trwyniad uno ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465.

Y darn o gefnffordd yr A465 o'r enw'r Brif Ffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Bryn-mawr hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Blackrock, gan gynnwys dwy gerbytffordd gylchredol y ddwy gylchfan.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A465 wrth Gyffordd Bryn-mawr sy'n ymestyn o bwynt 15 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Blackrock hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

## ATODLEN 4
## CYFFORDD LLAN-FFWYST YR A465

Y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd Llan-ffwyst cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Westgate hyd at ei chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol honno.

## ATODLEN 5
## CYFFORDD SALEYARD YR A465

Y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd Saleyard yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 215 o fetrau i'r dwyrain o gefn trwyniad ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A465 hyd at ei chyffordd â'r Brif Ffordd.

Y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd Saleyard yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Brif Ffordd a Station Road hyd at bwynt 65 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r Brif Ffordd a Station Road.

Y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd Saleyard cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Station Road hyd at bwynt 25 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Station Road.

## ATODLEN 6
## CYFFORDD GLANBAIDEN YR A465

Y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd Glanbaiden cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 63 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â system gylchredol Cyffordd Glanbaiden hyd at ei chyffordd â system gylchredol Cyffordd Glanbaiden.

Y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd Glanbaiden cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd â system gylchredol Cyffordd Glanbaiden hyd at bwynt 32 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â system gylchredol Cyffordd Glanbaiden.

Y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd Glanbaiden cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 68 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â system gylchredol Cyffordd Glanbaiden hyd at ei chyffordd â system gylchredol Cyffordd Glanbaiden.

Y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd Glanbaiden cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o bwynt 246 o fetrau i'r de-ddwyrain o gefn trwyniad ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A465 hyd at bwynt 29 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â system gylchredol Cyffordd Glanbaiden.